

Gorchymyn Cydsyniad Datblygu Cynllun Storfa Bwmpio Glyn Rhonwy: Cais am newid ansylweddol 2023

Ymgynghoriad ar gais arfaethedig am newid ansylweddol.



Cyf yr Arolygiaeth Gynllunio	EN010072	
	SPH.GR [NMC-002]	
	SPH/ BS	
Awduron		
Adolygiad	Dyddiad	Disgrifiad
1	27/09/2023	I fynd gyda hysbysiad rheoliad 6

1 CYFLWYNIAD

- 1.1 Snowdonia Pumped Hydro Limited ("SPH") (rhif cwmni 08644844) sydd â chyfeiriad cofrestredig yn 35 Ballards Lane, London, N3 1XW, yw'r ymgymwrwr gyda budd Gorchymyn Gorsaf Gynhyrchu Pwmpio a Storio Glyn Rhonwy 2017, a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ar 8 Mawrth 2017 (Offeryn Statudol 2017 Rhif 330) fel y'i cywirwyd gan Orchymyn Gorsaf Gynhyrchu Pwmpio a Storio Glyn Rhonwy (Cywiriad) 2017 (Offeryn Statudol 2017 Rhif 969) (y "Gorchymyn") yn dilyn cais a wnaed gan SPH (Cyfeirnod yr Arolygiaeth Cynllunio EN010072).
- 1.2 Diwygiwyd y Gorchymyn gan Orchymyn Gorsaf Gynhyrchu Storfa Bwmpio Glyn Rhonwy (Diwygiad) (Cymru) 2021 (Offeryn Statudol 2021 Rhif 1284 (W.323). Roedd y diwygiad ansylweddol hwn yn ymestyn y cyfnod ar gyfer gweithredu'r Gorchymyn i 29 Mawrth 2024. Roedd angen hyn oherwydd yr amgylchiadau a oedd yn deillio o bandemig parhaus COVID-19, gan gynnwys y cyfyngiadau a osodwyd gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Cyfyngiadau) (Lloegr) 2020 (fel y'u diwygiwyd) a'r amrywiol Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) a oedd yn rhwystro gallu SPH i gyflawni gofynion amrywiol y DCO, ac i ddechrau'r datblygiad awdurdodedig cyn i'r terfyn amser hwnnw ddod i ben.
- 1.3 Gwnaed y Gorchymyn yn unol ag Adrannau 114 a 120 Deddf Cynllunio 2008 ("Deddf 2008"), gyda'r rhesymau dros wneud y Gorchymyn wedi'u cynnwys yn llythyr yr Ysgrifennydd Gwladol dyddiedig 8 Mawrth 2017.
- 1.4 Mae'r Gorchymyn yn rhoi caniatâd datblygu ar gyfer adeiladu a gweithredu cynllun storfa bwmpio 99.9MW (y cyfeirir ato yn y Gorchymyn fel y "datblygiad awdurdodedig"). Disgrifir y datblygiad awdurdodedig yn Rhan 1 Atodlen 1 i'r Gorchymyn.
- 1.5 Byddai'r datblygiad awdurdodedig wedi'i leoli ar dir yn chwareli Glyn Rhonwy a Chwarel Fawr yng Ngwynedd, Cymru. Mae'r prosiect cyfan o fewn ffin weinyddol Cyngor Gwynedd. Dangosir lleoliad y datblygiad awdurdodedig ar y Cynlluniau Tir a ardystiwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol (rhifau lluniadau: 141004-EXPA-LAND-001-J, 141004-OVER-LAND-001-J, a 141004-OVER-LAND-002-J) a dangosir y gwahanol gydrannau sy'n ffurfio'r datblygiad awdurdodedig ar y Cynlluniau Gwaith a ardystiwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol (rhifau lluniadau: GR_160809_DCO_2.04b_v17, GR_160809_DCO_2.04c_v17 a GR_160809_DCO_2.04d_v17).
- 1.6 Mae'r tir yn cynnwys nifer o chwareli segur, pyllau a thomenni llechi, coetir, tir pori a llwyfan ystâd ddiwydiannol. Cyngor Gwynedd sy'n berchen ar y rhan fwyaf o ben dwyreiniol y tir ac mae'r rhan fwyaf o'r pen gorllewinol yn eiddo i Ystâd y Goron.
- 1.7 Mae cytundebau opsiwn i gaffael yr hawliau angenrheidiol neu berchnogaeth dros dir a buddiannau sy'n ofynnol i adeiladu a gweithredu'r datblygiad a ganiateir gan y Gorchymyn wedi'u cwblhau.
- 1.8 Ymrwymodd SPH i gytundeb arbennig gyda Chyngor Gwynedd dyddiedig 5 Mawrth 2014 ac yn unol â hynny mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno i ymrwymo i brydles eiddo o 125 mlynedd (fel y'i diffinnir ynddo) i ganiatáu adeiladu a gweithredu'r datblygiad awdurdodedig.
- 1.9 Ymrwymodd SPH i gytundeb cyfyngu gyda Chyngor Gwynedd dyddiedig 16 Mawrth 2015 ac yn unol â hynny mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno i ymrwymo i brydles eiddo o 125 mlynedd (fel y'i diffinnir ynddo) i ganiatáu adeiladu a gweithredu'r datblygiad awdurdodedig.
- 1.10 Mae Gofyniad 2 y Gorchymyn (Paragraff 2 Rhan 2 Atodlen 1) yn sicrhau bod yn rhaid i'r datblygiad awdurdodedig ddechrau heb fod yn hwyrach na 29 Mawrth 2024. Mae SPH yn poeni na fyddant yn gallu dechrau'r datblygiad awdurdodedig yn ystod y cyfnod hwn oherwydd cynnydd na welwyd ei debyg o'r blaen yng nghostau cyfalaf rhagamcanol y

datblygiad sy'n gysylltiedig ag ymosodiad Rwsia ar Wcráin a ffactorau chwyddiant eraill ar ôl covid. Ar ben hynny, mae'r cefndir polisi ar gyfer cyfleusterau Storio Ynni Hirdymor ar Raddfa Fawr fel Glyn Rhonwy yn debygol o gael ei ddiweddarau yn 2024-25.

- 1.11 Felly, mae SPH yn ceisio newid y Gorchymyn er mwyn ymestyn y terfyn amser ar gyfer dechrau'r datblygiad awdurdodedig 24 mis i 29 Mawrth 2026 drwy ddiwygiad ansylweddol (y "Cais NMC"). Gwneir cais NMC o dan Reoliadau Cynllunio Seilwaith (Newid a Dirymu Gorchymynion Caniatâd Datblygu) (Rheoliadau 2011 (y "Rheoliadau Newidiadau"). Darperir y ddogfen hon fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Cais NMC arfaethedig hwnnw er mwyn egluro pam y ceisir y newidiadau.
- 1.12 Mae'r ddogfen hon yn nodi'r diwygiad ansylweddol arfaethedig i'r Gorchymyn a'r rhesymau dros wneud hynny. Mae hefyd yn cadarnhau na fydd y newidiadau'n arwain at unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol newydd neu wahanol.

2 Y BROSES YMGYNGHORI

- 2.1 Mae Rheoliadau 6 a 7 y Rheoliadau Newidiadau yn nodi'r broses ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd ac ymgynghori ar Gais NMC. Yn unol â Rheoliad 7A y Rheoliadau Newidiadau, bydd SPH yn cyflwyno Datganiad Ymgynghori a Chyhoeddusrwydd ar wahân sy'n cadarnhau ei fod yn cydymffurfio â Rheoliadau 6 a 7 y Rheoliadau Newidiadau.
- 2.2 Cyflwynir y ddogfen hon i'r Arolygiaeth gyda hysbysiad o dan reoliad 6 yn gofyn i'r dogfennau fod ar gael i'r cyhoedd ar wefan yr Arolygiaeth:
- Bydd hysbysiad o'r cais yn cael ei gyhoeddi am o leiaf ddwy wythnos olynol yn y Caernarfon and Denbigh Herald, sy'n bapur newydd lleol yng nghyffiniau'r tir ar 04/10/23 & 11/04/23.
 - Ymgynghorir â'r canlynol drwy anfon hysbysiad ar ffurf copi caled:
 - y rhai yr ymgynghorwyd â nhw ynghylch y cais gwreiddiol;
 - y rheini sy'n elwa o'r gorchymyn cydsyniad datblygu gwreiddiol; a
 - y rheini y gallai'r newidiadau arfaethedig effeithio'n uniongyrchol arnynt. (Rheoliad 7(2))
- 2.3 Bydd y Cais NMC ar gael i'w weld ar wefan Glyn Rhonwy yn:
- <https://www.snowdoniapumpedhydro.com/> a hefyd ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio yn:
- <https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/projects/wales/glyn-rhonwy-pumped-storage/>
- 2.4 Gellir gwneud cais am gopiâu caled o ddogfennau'r Cais NMC yn rhad ac am ddim drwy gysylltu â SPH drwy anfon e-bost at info@snowdoniapumpedhydro.co.uk neu Snowdonia Pumped Hydro Limited, 12A Talus House, Halstead, Essex, CO9 2BX neu 01787827277.
- 2.5 Gall ymgynghoreion gyflwyno sylwadau ar y Cais NMC tan y dyddiad cau ar gyfer ymgynghori, sydd wedi'i nodi yn yr hysbysiad Rheoliad 6 sy'n gysylltiedig â'r Cais NMC hwn.
- 2.6 Cynhaliodd yr ymgeisydd ymgynghoriad anstatudol gyda'r awdurdod cynllunio lleol cyn cyflwyno'r cais hwn.

3 NEWID ANSYLWEDDOL ARFAETHEDIG I'R GORCHYMYN

Gorchymyn Gorsaf Gynhyrchu Storfa Bwmpio Glyn Rhonwy 2017 (fel y'i diwygiwyd)

- 3.1 Mae'r Gorchymyn yn cynnwys 32 o ddarpariaethau gweithredol, y cyfeirir atynt fel erthyglau, a 7 o Atodlenni.
- 3.2 Mae Rhan 2 o Atodlen 1 yn cynnwys y Gofynion. Mae Gofyniad 2 yn datgan bod yn rhaid i'r datblygiad awdurdodedig ddechrau erbyn 29 Mawrth 2024. Byddai Gofyniad 2 yn gwahardd cychwyn y datblygiad awdurdodedig ar ôl 29 Mawrth 2024.

Newid ansylweddol arfaethedig i'r Gorchymyn

- 3.3 Mae SPH yn cynnig un newid i'r Gorchymyn, sef amnewid y dyddiad a bennir yn Ofyniad 2 gyda therfyn amser newydd, sef 29 Mawrth 2026. Byddai Gofyniad diwygiedig 2 yn cael ei ddiwygio fel y dangosir yn y tabl isod.


Darpariaeth	Drafftio'r Gorchymyn	Y Newid Arfaethedig
Paragraff 2 Rhan 2 Atodlen 1	2. Terfynau amser <i>"Rhaid i'r datblygiad awdurdodedig ddechrau heb fod yn hwyrach na 29 Mawrth 2024."</i>	2. Terfynau amser <i>"Rhaid i'r datblygiad awdurdodedig ddechrau heb fod yn hwyrach na 29 Mawrth 2026."</i>

Cyfiawnhad dros newidiadau ansylweddol

- 3.4 Ers y diwygiad yn 2021, mae SPH wedi bod yn gweithio'n frwd ar fwrw ymlaen â'r prosiect o ran Gofynion y DCO, arolygu a pheirianeg. Mae SPH wedi cwblhau'r gwaith dylunio manwl gyda Fichtner Consulting Engineers sydd wedi cynnwys ystyriaeth helaeth o ddyluniad peirianeg manwl terfynol y prosiect, y fethodoleg adeiladu a'r gadwyn gyflenwi. Yn dilyn y gwaith hwn, mae SPH wedi rhoi'r prosiect allan i dendr gyda nifer o brif gontractwyr peirianeg sifil, mecanyddol a thrydanol yn Ewrop. Yn anffodus, mae'r prisiau tendr a dderbyniwyd wedi dod yn ôl gryn dipyn yn uwch nag a amcangyfrifwyd yn flaenorol.
- 3.5 Barn ein hymgynghorwyr, a'r contractwyr eu hunain, yw bod y cynnydd annisgwyl hwn mewn costau yn gysylltiedig â'r chwyddiant digynsail yn y DU ac Ewrop oherwydd goresgyniad Rwsia yn Wcráin yn ogystal â ffactorau ôl-COVID eraill.
- 3.6 Mae data costau deunyddiau adeiladu'r DU yn dangos cynnydd sylweddol, sydyn ac anwadalrwydd mewn costau deunyddiau adeiladu allweddol fel concrit a dur fel y dangosir yn y graff yn Ffigur1 . Mae'r cynnydd hwn mewn costau hefyd i'w weld ledled Ewrop, sy'n berthnasol oherwydd maint a natur y Datblygiad, ac mae'r prif gontractwyr yn tueddu i fod wedi'u lleoli yn Ewrop. Mae chwyddiant mewn cynnyrch petrolewm fel nwy ar gyfer gweithgynhyrchu deunyddiau a disel ar gyfer gweithredu peiriannau hefyd wedi cynyddu'n sydyn.
- 3.7 Yn ôl y Gwasanaeth Gwybodaeth am Gostau Adeiladu (BCIS), rhan o Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig, "mae 69% o gwmnïau peirianeg sifil Prydain yn dweud eu bod yn cael trafferth dod o hyd i weithwyr sgiliedig".¹ Mae costau llafur uchel hefyd wedi bod yn elfen sylweddol o gostau adeiladu uchel yn ystod ein proses dendro. Mae rhai cyrff yn y diwydiant fel BCIS nawr yn ystyried bod llafur yn mynd i oddiweddud deunyddiau fel y prif sbardun ar gyfer cynnydd mewn costau adeiladu.

¹ <https://bcis.co.uk/insight/bcis-webinar-series-construction-inflation-is-delivery-a-problem/>

- 3.8 Ers cael canlyniadau'r ymarfer tendro, mae prosiectau eraill yn y sector ynni sy'n defnyddio deunyddiau tebyg, fel Fferm Wynt Vattenfall Boreas yn Norfolk wedi cyhoeddi eu bod yn gohirio gwaith datblygu oherwydd chwyddiant uchel sy'n effeithio ar gostau adeiladu ac sy'n effeithio ar economeg y prosiect² (mae costau'r prosiect wedi cynyddu tua 40%).
- 3.9 Mae'r data a amlinellir uchod yn cyd-fynd â'n profiadau yn ystod y broses dendro lle mae deunyddiau adeiladu allweddol fel concrit a phrisiau leinin twneli dur wedi treblu neu hyd yn oed wedi cynyddu bedair gwaith ers yr amcangyfrifon cychwynnol yn 2021.



Ffigur1 - Ystadegau Deunyddiau a Chydrannau Adeiladu'r Adran Busnes a Masnach³

- 3.10 Er bod economeg y prosiect yn flaenorol wedi golygu nad oedd angen unrhyw gymorth gan y llywodraeth, mae'n debygol y bydd y penderfyniad buddsoddi terfynol ar y cynllun yn dibynnu ar gynllun Cymorth Storio Ynni Hirdymor y Llywodraeth a fydd yn cael ei roi ar waith yn 2024. Mae hyn nawr yn golygu bod sefyllfa SPH yn debyg i sefyllfa datblygwyr eraill storfeydd ynni pwmpio hydro fel Drax⁴ a SSE⁵ sydd hefyd yn aros am gadarnhad o gynllun cymorth y Llywodraeth. Mae'r farn hon hefyd yn cael ei rhannu gan sefydliadau masnach fel Scottish Renewables⁶ yn ogystal â Phrif Weinidog yr Alban⁷.

²<https://group.vattenfall.com/press-and-media/newsroom/2023/first-six-months-2023-a-positive-development-for-the-customer-business-and-challenges-in-offshore-wind-power>

³ <https://www.data.gov.uk/dataset/75ee36ed-21f7-4d7b-9e7c-f5bf4546145d/building-materials-and-components-statistics>

⁴ https://www.drax.com/press_release/scottish-energy-minister-calls-on-uk-government-to-support-new-pumped-storage-hydro-plants/

⁵<https://www.sserenewables.com/news-and-views/2022/04/sse-renewables-renews-call-for-policy-action-on-long-duration-energy-storage/>

⁶<https://www.scottishrenewables.com/news/1342-drax-approved-for-new-500m-cruachan-2-pumped-storage-hydro-project>

⁷<https://www.gov.scot/publications/call-for-uk-government-to-support-pumped-hydro-storage-through-a-market-mechanism-letter-to-prime-minister/>

Mae National Grid hefyd yn galw ar y Llywodraeth i gyflwyno polisi i ddatgloi buddsoddiad mewn Storio Ynni Hirdymor yn ei ddogfen Senarios Ynni'r Dyfodol 2023⁸.

- 3.11 Oherwydd yr amgylchiadau annisgwyl ac eithriadol hyn, mae SPH o'r farn y byddai ymestyn y terfyn amser 24 mis yng Ngofyniad 2 yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'w alluogi i ddechrau'r datblygiad a ganiateir gan y Gorchymyn a lleihau'r risg na fydd y datblygiad yn mynd rhagddo o gwbl. Byddai'r 24 mis yn rhoi digon o amser i ni aros am y cyhoeddiad gan y Llywodraeth, penodi'r Prif Gontractwr ar gyfer adeiladu'r prosiect a rhoi digon o amser i gwblhau'r holl waith cyn adeiladu sydd ei angen.

Perthnasedd y newid arfaethedig

- 3.12 Paratowyd y Cais NMC hwn gan gyfeirio at Ddeddf Cynllunio 2008: Canllawiau ar Newidiadau i Orchmynion Caniatâd Datblygu a gyhoeddwyd gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol yn 2015 (Canllawiau 2015). Mae'n datgan nad yw Deddf 2008 na'r Rheoliadau Newidiadau yn darparu diffiniad o newid sylweddol neu ansylweddol. Fodd bynnag, mae Canllawiau 2015 yn darparu pedwar maes sylfaenol ar gyfer ystyried newid arfaethedig, sef:

- Datganiad Amgylcheddol;
- Cynefinoedd Rhywogaethau a Warchodir;
- Caffael gorfodol; ac
- Effeithiau ar fusnesau a thrigolion.

- 3.13 Ni fydd y newid arfaethedig yn newid unrhyw agwedd ffisegol ar y datblygiad a ganiateir gan y Gorchymyn ac ni fydd unrhyw bwerau caffael gorfodol yn y Gorchymyn.

- 3.14 O safbwynt Rheoliadau Cynefinoedd, mae'r datblygiad a ganiateir gan y Gorchymyn yn aros yr un fath. Nid yw'n rhesymol debygol y byddai'r Cais NMC yn arwain at unrhyw effeithiau gwahanol ar gynefinoedd a rhywogaethau gwarchodedig, nac ar unrhyw safleoedd o bwysigrwydd Ewropeaidd. Felly, ni ystyrir y byddai angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

- 3.15 Cynhaliwyd y gwaith asesu effaith amgylcheddol ar gyfer Gorchymyn Caniatâd Datblygu Glyn Rhonwy ar ran SPH gan ymgynghorwyr amgylcheddol sydd â chymwysterau priodol. Cafodd ei adolygu a'i ddiweddarau yn 2020 a lluniwyd adroddiad i gyd-fynd â'r cais blaenorol am ddiwygiad ansylweddol. Mae prif awdur technegol y Datganiad Amgylcheddol gwreiddiol a'r adroddiad diweddarau wedi cynnal Gwerthusiad Amgylcheddol pellach o effaith bosibl y Diwygiad Ansylweddol arfaethedig ar y gwahanol feysydd pwnc a drafodir yn y Datganiad Amgylcheddol ar gyfer y prosiect. Mae'r adroddiad gwerthuso hwn wedi'i gynnwys gyda'r cais NMC. Dyma gasgliadau cyffredinol yr Arfarniad Amgylcheddol:

- Ni fydd unrhyw effeithiau posibl ar drigolion a busnesau lleol yn cael eu newid gan yr NMA arfaethedig
- Dylai unrhyw ganiatâd cynllunio dilynol ar gyfer unrhyw dderbynyddion preswyl sensitif newydd fod wedi ystyried unrhyw effeithiau posibl yn sgil adeiladu, gweithredu a datgomisiynu prosiect Glyn Rhonwy.
- Ni fydd y diwygiad yn arwain at unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol newydd neu wahanol ar gyfer unrhyw un o'r pynciau / meysydd amgylcheddol sy'n cael sylw yn y Datganiad Amgylcheddol ardystiedig

⁸ <https://www.nationalgrideso.com/future-energy/future-energy-scenarios>

- Ni fydd unrhyw newid i unrhyw fesurau lliniaru y cytunwyd arnynt o'r blaen, nac unrhyw rai o'r dogfennau sydd eisoes wedi'u cymeradwyo o dan y gofynion yn y Gorchymyn. O ganlyniad, mae'r holl asesiadau a wnaed yn y Datganiad Amgylcheddol yn dal yn ddilys.
- Byddai'r ymrwymïadau yn y Gorchymyn i liniaru unrhyw effeithiau posibl ar dderbynyddion yn parhau i fod yn berthnasol.

3.16 I gloi, ystyrir bod y newidiadau a gynigir yn y Cais NMC hwn yn ansylweddol.

4 YSTYRIAETHAU POLISI

- 4.1 Mae cefnogaeth polisi'r Llywodraeth ar gyfer seilwaith a phrosiectau trydanol carbon isel sy'n gallu cefnogi a chyfrannu at Sero Net wedi cynyddu ers i'r Gorchymyn gael ei wneud.
- 4.2 Y Strategaeth Sero Net: Mae Ailgodi'n Fwy Gwyrdd (Hydref 2021) yn nodi bod defnyddio mesurau hyblygrwydd newydd, gan gynnwys storio, yn un o'i brif flaenoriaethau (tudalen 19). Mae Strategaeth Diogelwch Ynni Prydain (Ebrill 2022) yn nodi "y bydd y system yn blaenoriaethu 2 nodwedd allweddol: rhagweld angen oherwydd bod cynllunio ymlaen llaw yn lleihau costau a tharfu ar y cyhoedd; a hyblygrwydd mawr o ran cyfateb y cyflenwad a'r galw fel bod cyn lleied o ynni'n cael ei wastraffu". Mae'n darparu y bydd y Llywodraeth yn "sicrhau system fwy hyblyg ac effeithlon ar gyfer cynhyrchwyr a defnyddwyr: gan annog pob math o hyblygrwydd gyda digon o storio trydan hirdymor ar raddfa fawr i gydbwyso'r system gyffredinol drwy ddatblygu polisi priodol i alluogi buddsoddiad". Byddai'r datblygiad yn darparu storfa drydan hirdymor sy'n cael ei sefydlu fel blaenoriaeth gan y strategaeth.
- 4.3 Ers gwneud Gorchymyn Gorsaf Gynhyrchu Storfa Bwmpio Glyn Rhonwy (Diwygiad) (Cymru) 2021, ni fu unrhyw newid i'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar gyfer Ynni fel y mae mewn grym. Daeth yr ymgynghoriad ar y Datganiadau Polisi Cenedlaethol diwygiedig i ben ar 23 Mehefin 2023. Nodir bod yr EN-1 drafft, fel yr ymgynghorwyd arno, yn darparu cefnogaeth ar gyfer darparu storio trydan, gan ddarparu "Mae gan storio rôl allweddol i'w chwarae o ran cyflawni sero net a darparu hyblygrwydd i'r system ynni".
- 4.4 Cyhoeddwyd Cymru'r Dyfodol 2040; Cynllun Cenedlaethol ym mis Chwefror 2021 ac mae bellach yn rhan o'r cynllun datblygu. Mae'r cynllun hwn yn nodi'r "angen i ystyried storio ynni ar raddfa fawr fel rhan o'r system ynni". Byddai'r datblygiad yn darparu storfa o'r fath yng Ngogledd Cymru yn unol â'r cynllun hwnnw.
- 4.5 Cafodd y cynllun datblygu lleol perthnasol, y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, ei fabwysiadu ym mis Gorffennaf 2017 ac mae'n parhau i fod yn gynllun datblygu lleol cyfredol. Mae'r cynllun hwnnw'n nodi'r cymorth ar gyfer technolegau ynni adnewyddadwy a charbon isel y byddai'r prosiect pwmpio dŵr yn helpu i'w cefnogi (Polisi Strategol PS7). Mae Polisi AND 3 yn darparu y bydd "cynigion ar gyfer technolegau ynni adnewyddadwy a charbon isel, ar wahân i wynt neu solar, sy'n cyfrannu at ddyfodol carbon isel yn cael eu caniatáu" ar yr amod bod yr effeithiau'n dderbyniol. Gan fod effeithiau'r DCO eisoes wedi cael eu hasesu fel rhai derbyniol, mae SPH o'r farn bod y polisi'n cefnogi'r cais hwn am ddiwygiad.
- 4.6 Byddai'r diwygiad ansylweddol a geisir yn caniatáu cyflawni'r datblygiad sy'n cael ei gefnogi gan bolisi ar bob lefel ac a fyddai'n cyfrannu at amcanion polisi, gan gynnwys cyflawni Sero Net.

5 CRYNODEB A CHASGLIADAU

- 5.1 Mae SPH yn gwneud cais i wneud newid ansylweddol i'r Gorchymyn i ganiatáu estyniad o 24 mis i'r terfyn amser a nodir yn Ofyniad 2 (Paragraff 2 Rhan 2 Atodlen 1) y Gorchymyn. Bydd hyn yn caniatáu hyblygrwydd ychwanegol i ddechrau'r datblygiad awdurdodedig mewn ymateb i godiadau na welwyd eu tebyg o'r blaen mewn costau

adeiladu sy'n gysylltiedig â chwyddiant. Ni fydd unrhyw newidiadau i unrhyw ddarpariaethau eraill yn y Gorchymyn a bydd y datblygiad awdurdodedig yn aros yr un fath.

- 5.2 Mae Adroddiad Gwerthuso Amgylcheddol wedi cael ei baratoi i gyd-fynd â'r Cais NMC. Mae'r adroddiad yn ystyried y newid arfaethedig i'r Gorchymyn ac yn asesu'r posibilrwydd y bydd unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol newydd neu wahanol yn codi o'u cymharu â chanfyddiadau'r Datganiad Amgylcheddol a gyflwynwyd gyda'r cais gwreiddiol a diweddariad 2020. Mae'r adroddiad yn dangos na fyddai'r newid arfaethedig yn arwain at unrhyw effeithiau sylweddol tebygol newydd neu wahanol.
- 5.3 Felly, mae SPH o'r farn nad yw'r newidiadau arfaethedig yn sylweddol at ddibenion y Rheoliadau Newidiadau ac mae'n nodi y gall Gweinidogion Cymru ganiatáu'r newid a gynigir yn y cais hwn.